



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Sir Gaerfyrddin

**Mencap Cymru
Tŷ Pennant
Mill Street
Pontypridd
CF37 2SW**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/11/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Sir Gaerfyrddin

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Cymdeithas Frenhinol Mencap
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20 Hydref 2020
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, mewn cynlluniau byw â chymorth neu lety a rennir a chartrefi preswyl yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael gan y staff profiadol ac ymroddedig. Dywedodd un cynrychiolydd wrthym, "*The carers are extremely efficient, they go over and above*".

Mae'r staff gofal yn brofiadol ac yn wybodus ac maent yn trin y bobl mewn modd parchus a gofalgar. Mae'r gwasanaeth wrthi'n recriwtio staff ychwanegol gan nad yw bob amser yn bosibl i'r bobl gael y cymorth priodol i wneud y gweithgareddau y byddent yn hoffi eu gwneud gyda'r lefelau staffio presennol mewn rhai ardaloedd. Mae recriwtio staff gofal yn broblem genedlaethol, ond mae'r darparwr wedi gweld gwelliant yn ddiweddar ac, felly, mae'r sefyllfa'n cael ei datrys.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac mae trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro ansawdd y gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau yn gyfredol. Diweddarwyd y polisi Diogelu i gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn unol â'r cyngor a roddwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau ac ymgynghorir â nhw ar benderfyniadau ynglŷn â'r gwasanaeth a'r cymorth y maent yn ei gael. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o recriwtio aelodau newydd o staff gofal, sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn canfod eu barn a'u dymuniadau.

Mae'r cynlluniau gofal unigol manwl yn cynnwys gwybodaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gadw mor iach â phosibl. Anogir y bobl i wneud pethau drostynt eu hunain ac i fyw mor annibynnol ag y gallant, a chânt eu grymuso i gyflawni eu canlyniadau. Caiff y canlyniadau hyn eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu, gan alluogi'r bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, fel trefnu i fynd ar wyliau neu fynd i gyngherddau. Mae gan y bobl lais, a gwrandewir arnynt.

Mae asesiadau risg ar waith sy'n sicrhau bod y bobl yn gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt ac yn cael eu hannog i fod yn rhan o'u cymunedau, ond gan eu cadw mor ddiogel â phosibl a'u diogelu rhag niwed ar yr un pryd.

Caiff y bobl eu parchu a chydabyddir eu natur unigryw. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn modd urddasol os byddant yn teimlo'n ofidus ac maent yn sensitif tuag at eu hanghenion. Dywedodd un perthynas wrthym, "*She can't communicate very well, won't say if something is wrong, if she's in pain but they will notice. I'm so fortunate having them to care for her.*"

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â'u teuluoedd a'u ffrindiau, a dywedodd un o'r cynrychiolwyr y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i anghenion gofal a chymorth y person. Mae uwch-aelodau o'r staff ar gael i'r bobl os bydd ganddynt bryderon. Dywedodd un perthynas wrthym "*The manager is very open, will listen and has always got answers, will follow up things. The staff are like extended family.*"

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan dîm o staff gwybodus a phrofiadol. Dywedodd y cynrychiolwyr y gwnaethom siarad â nhw wrthym, "*Their understanding of her is extraordinary, it's better than mine*".

Ceir tîm cadarn o weithwyr gofal sy'n hapus i gefnogi ei gilydd er mwyn rheoli unrhyw absenoldeb staff oherwydd salwch a gwyliau. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym, "*Staff will support each other, I was welcomed as soon as I started*".

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth personol yn fanwl ac yn ymdrin ag amrywiaeth o anghenion cymorth a'r ffordd y mae'r unigolyn yn dymuno i'r anghenion hynny gael eu diwallu. Mae cynllun 'About me' yn nodi manylion personol yr unigolyn, ei hoff bethau a'i gas bethau a'r hyn sy'n bwysig iddo. Anogir y bobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn gosod ac yn adolygu eu nodau eu hunain, ac yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau. Roedd un o'r cynlluniau a welsom yn nodi bod unigolyn wedi cael cymorth i brynu dillad o'i ddewis, cynllunio i fynd i sioe, cynnal pwysau rheolaidd ac ymweld ag adweithgydd.

Mae'r asesiadau risg yn rhoi trosolwg o'r dulliau y gellir eu defnyddio i amddiffyn y bobl rhag niwed ac mae system gadarn ar waith i sicrhau y caiff yr asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff yn defnyddio adnodd 'What matters most' i adolygu a datblygu'r cynlluniau gyda'r bobl. Er ei bod yn amlwg drwy siarad â'r staff ac edrych ar y gwaith papur fod adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth unigol yn cael eu cynnal, dywedodd rhai aelodau o deuluoedd wrthym nad ydynt yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r adolygiadau y mae'n ofynnol eu cynnal bob tri mis. Fodd bynnag, cânt eu hysbysu dros y ffôn neu drwy e-bost os bydd unrhyw newid i anghenion gofal a chymorth eu perthynas. Codwyd y mater hwn gyda'r rheolwr, a fydd yn sicrhau y cysylltir â'r cynrychiolwyr yn rheolaidd er mwyn iddynt fod yn rhan o'r broses adolygu.

Gwelsom dystiolaeth o gydweithredu amlasiantaethol ac o bobl yn mynychu apwyntiadau meddygol, a chaiff pob ymyriad ei gofnodi.

Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a rhoddir cymorth i'r bobl ei chymryd fel y'i rhagnodwyd. Mae gan y bobl gynlluniau rheoli ac asesiadau risg mewn perthynas â meddyginiaeth, a chynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn nodi unrhyw anghysondebau. Fodd bynnag, gwelsom fod llofnod ar goll ar un ffeil. Dywedodd y rheolwr fod system newydd ar waith ac y bydd y ddogfennaeth yn cael ei throsi i ffurf gyfrifiadurol yn unol â'r cofnodion eraill. Bydd hyn yn hysbysu'r rheolwyr am unrhyw gamgymeriadau o ran meddyginiaeth ac mae'n system gadarn iawn.

Mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau i gadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Maent yn hyderus i siarad â'r rheolwyr i ddechrau, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe baent o'r farn bod angen gwneud hynny.

Yr Amgylchedd

Nid ydym yn archwilio thema Ansawdd yr Amgylchedd yn fanwl ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref. Fodd bynnag, gall y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r holl gyflogeion fod yn hyderus bod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr ardal yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn cydweithio'n agos â rheolwyr y gwasanaeth. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym eu bod yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn eu hannog a'u bod ar gael. Dywedodd un aelod o'r staff *"I can't see myself ever leaving, I love it here"*. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir.

Mae mesurau sicrhau ansawdd a llywodraethu da ar waith. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn hyrwyddo arferion diogel. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn gyson â deddfwriaeth genedlaethol a chanllawiau arfer gorau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau gwiriadau er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei amcanion a bod y bobl yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau adolygiadau rheolaidd o ansawdd y gofal er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn ddiogel ac o ansawdd da. Mae'r adolygiadau o ansawdd y gofal hefyd yn ystyried cryfderau'r gwasanaeth ac unrhyw feysydd y gellir eu datblygu.

Mae system recriwtio ddiogel ar waith ac mae pob aelod o'r staff yn destun gwiriadau perthnasol cyn iddo ddechrau yn ei swydd. Roedd y ffeiliau a welsom yn cynnwys geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Lle y bo'n bosibl, caiff y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cynnwys yn weithredol yn y broses o gyflogi gweithwyr gofal er mwyn sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu hystyried mewn perthynas â'r bobl a fydd yn darparu gofal a chymorth iddynt. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni eu rôl ac maent yn darparu hyfforddiant a sesiynau goruchwylio parhaus. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod system effeithiol ar waith, sy'n eu hysbysu pan fydd angen iddynt gwblhau hyfforddiant a bod hyn yn gweithio'n dda i sicrhau bod eu hyfforddiant yn parhau'n gyfredol. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf.

Mae recriwtio staff gofal yn broblem genedlaethol ar hyn o bryd, ac mae hyn wedi cael rhywfaint o effaith ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi adolygu ei delerau ac amodau yn ddiweddar ac ers hynny, mae'r sefyllfa o ran recriwtio wedi gwella.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 21/12/2022